Rhif: **WG14632**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

# Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a Phrofion Cenedlaethol

Dyddiad cyhoeddi: **11 Mehefin 2012**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **12 Hydref 2012**

# Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a Phrofion Cenedlaethol

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r Rhaglen Lythrennedd Genedlaethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar a'r Rhaglen Rhifedd Genedlaethol i'w chyhoeddi yn fuan yn gosod gweithrediadau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu rhoi ar waith ar gyfer gwella safonau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru. Mae'r cynlluniau am fframwaith cenedlaethol statudol ac am gyfundrefn o brofion cenedlaethol yn rhan annatod o'r ddwy rhaglen. |
| **Sut i ymateb** | Dylid anfon ffurflenni ymateb drwy e-bost i is-adrancwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk (nodwch 'FfLlRh a phrofion' yn y blwch testun) neu drwy'r post i Steven Nicholas yn y cyfeiriad isod erbyn **12 Hydref 2012**. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.<br><br>Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau |
| **Manylion cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:<br>Is-Adran y Cwricwlwm<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: is-adrancwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk<br>Ffôn: 029 2082 5447 |

© Hawlfraint y Goron 2012
WG14632

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd yn rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 2

**Adran 1: Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol** 3

Diben a nodau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh) 3

Datblygu a gweithredu'r FfLlRh 4

Nodweddion allweddol y FfLlRh 5

Ynglŷn â'r FfLlRh 6

A yw'r FfLlRh yn cynnwys dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)? 8

Sut bydd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn defnyddio'r FfLlRh? 8

Sut mae'r FfLlRh yn cefnogi dilyniant pob dysgwr? 9

Sut mae'r FfLlRh yn cefnogi asesu? 10

Sut mae'r FfLlRh yn cyd-fynd â'r profion cenedlaethol? 11

Trosolwg o gydran llythrennedd y FfLlRh 11

Trosolwg o gydran rhifedd y FfLlRh 15

**Adran 2: Profion Cenedlaethol Darllen a Rhifedd** 19

Diben a nodau'r profion darllen a rhifedd 19

Datblygu'r profion cenedlaethol 20

Sut bydd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn defnyddio'r profion? 22

Ydy'r profion yn cynnwys dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)? 22

Sut caiff y profion eu rhoi a'u marcio? 23

A fydd data o'r profion yn cael ei gasglu? 24

**Atodiad 1: Rhestr o gwestiynau yr ymgynghoriad** 25

**Atodiad 2: Rhestr termau llythrennedd** 26

**Atodiad 3: Rhestr termau rhifedd** 31

# Cyflwyniad

Mae'r Rhaglen Lythrennedd Genedlaethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar a'r Rhaglen Rhifedd Genedlaethol i'w chyhoeddi yn fuan yn gosod gweithrediadau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu rhoi ar waith ar gyfer gwella safonau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru. Mae'r cynlluniau am fframwaith cenedlaethol statudol ac am gyfundrefn o brofion cenedlaethol yn rhan annatod o'r ddwy rhaglen.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i rhanddeiliaid ac aelodau'r cyhoedd i sylwebu ac ymateb i gynigion Llywodraeth Cymru ar y canlynol:

- Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol statudol
- Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol.

Mae'n cynnwys y ddogfen ymgynghori (fel a osodir isod) a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh) ei hun. Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, bydd angen y canlynol ar randdeiliaid ac aelodau'r cyhoedd:

- y ddogfen ymgynghori
- y FfLlRh
- y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan y ddogfen ymgynghori hon dwy adran.

- Mae **Adran 1** yn darparu cyflwyniad i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh).
- Mae **Adran 2** yn darparu cyflwyniad i'r Profion Cenedlaethol Darllen a Rhifedd.

Ceir tri atodiad ar ddiwedd y ddogfen hon.

- Mae **Atodiad 1** yn darparu rhestr o gwestiynau'r ymgynghoriad y byddem yn hoffi i chi ystyried fel rhan o'r broses ymgynghori.
- Mae **Atodiad 2** yn darparu rhestr o dermau llythrennedd.
- Mae **Atodiad 3** yn darparu rhestr o dermau rhifedd.

Caiff y **FfLlRh** ei dorri i ddau gydran – un ar gyfer llythrennedd ac un ar gyfer rhifedd. Mae'r FfLlRh yn cynnwys dau gydran arall ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Cewch ragor o wybodaeth ar y cydrannau gwahanol yn adrannau perthnasol y ddogfen hon.

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a Phrofion Cenedlaethol trwy lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad. Rhaid derbyn bob ymateb erbyn 12 Hydref 2012.

# Adran 1: Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi pennu codi safonau llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion yn flaenoriaeth. Yn ei brif araith 'Codi Safonau Ysgolion' ar 29 Mehefin 2011, gerbron y Sefydliad Materion Cymreig, cyhoeddodd y bwriad i gyflwyno Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol newydd ar gyfer pob dysgwr 5 i 14 oed.

## Diben a nodau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh)

Cafwyd tystiolaeth gynyddol nad yw sgiliau llythrennedd a rhifedd pobl ifanc yng Nghymru yn cyrraedd y safon, ac amlygwyd hyn yn *Adroddiad Blynyddol* Estyn yn 2011. Mae sgiliau llythrennedd a rhifedd yn gwbl hanfodol er mwyn i bobl ifanc wireddu eu potensial p'un a ydynt yn bwriadu mynd i addysg bellach neu addysg uwch, neu i'r farchnad swyddi.

Mae'r FfLlRh wedi cael ei ddatblygu er mwyn helpu i gyflawni'r nod sydd gennym o sicrhau bod plant Cymru'n gallu datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd rhagorol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r cwricwlwm cenedlaethol cyfredol a gyflwynwyd o 2008 ymlaen yn anelu i blethu datblygiad sgiliau drwy'r holl gwricwlwm. Fe'i tanategir felly gan y *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) anstatudol, sy'n trafod datblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif. Ceir tystiolaeth gref nad yw'r fframwaith sgiliau wedi llwyddo i ddatblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm, a phrin yw'r ysgolion sy'n defnyddio'r fframwaith sgiliau yn sail ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm. Mae adroddiad Estyn, *Arfarniad o effaith y fframwaith sgiliau anstatudol i ddysgwyr rhwng 3 a 19 oed yng Nghyfnod Allweddol 2* ym mis Gorffennaf 2011, a'r adroddiad tebyg ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 ym mis Mai 2012 yn awgrymu mai un rheswm am hyn fu natur anstatudol y fframwaith sgiliau. Bydd y FfLlRh yn disodli elfennau cyfathrebu a rhif y fframwaith sgiliau anstatudol, a bydd yn **ofyniad statudol o fewn y cwricwlwm**.

Mae ymarferwyr hefyd wedi mynegi pryderon ynglŷn â'r ymagwedd tuag at ddilyniant a datblygiad sgiliau dros amser a nodir yn y fframwaith sgiliau anstatudol, yn enwedig y diffyg eglurder ynglŷn â'r rhain. Datblygwyd y FfLlRh fel offeryn cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer ysgolion a fydd yn sicrhau continwwm datblygiad, gan nodi'n glir y deilliannau blynyddol a ddisgwylir ym maes llythrennedd a rhifedd. Er ein bod yn cydnabod y gallai datblygiad sgiliau ymysg dysgwyr

iau, yn enwedig, fod yn fwy afreolaidd ei natur, mae cynllunio'n effeithiol ar gyfer sgiliau ar draws y cwricwlwm a fframwaith ar gyfer datblygiad parhaus yn bwysig ar gyfer pob dysgwr.

**Nodau allweddol** y FfLlRh yw:

- cynorthwyo athrawon o **bob** pwnc i nodi a rhoi cyfle i ddysgwyr gymhwyso llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm ac wedi'i dadansoddi fesul grŵp blwyddyn
- rhoi disgrifiad manwl o'r **disgwyliadau cenedlaethol blynyddol ar gyfer llythrennedd a rhifedd** i ddysgwyr 5–14, a dangosyddion dilyniant ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol
- cynorthwyo i bennu **cynnydd dysgwyr** mewn llythrennedd a rhifedd a rhoi adroddiadau blynyddol i rieni/gofalwyr yn seiliedig ar asesiad yr athro/athrawes, er mwyn i'r athrawon, y dysgwyr a'r rhieni/gofalwyr fod â dealltwriaeth glir o gynnydd dysgwyr, ac o'r camau nesaf.

## Datblygu a gweithredu'r FfLlRh

Mae'r FfLlRh yn seiliedig ar ymchwil i addysgu, asesu ac arfer cofnodi ac adrodd effeithiol, ac i lwyddiant systemau tebyg a geir yn rhyngwladol. Fe'i lluniwyd mewn partneriaeth â phanel cynghori Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) sy'n cynnwys cynghorwyr llythrennedd a rhifedd o awdurdodau lleol.

Yn bennaf oll, offeryn cynllunio'r cwricwlwm yw'r FfLlRh sy'n cynorthwyo pob athro/athrawes i gynnwys llythrennedd a rhifedd yn rhan annatod o addysgu'r cwricwlwm. Ein nod yw cynorthwyo pob athro/athrawes i ystyried bod ganddo/ganddi rôl bwysig o ran datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd eu dysgwyr. Mae gan bob ysgol eisoes drefniadau ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm, a bydd angen addasu'r rhain i gefnogi cynllunio trawsgwricwlaidd drwy ddefnyddio'r FfLlRh. Ceir ysgolion sydd wedi datblygu'r ymagweddau hyn, a rhoddwyd enghraifft. Yn ogystal â hyn, bydd arweiniad ar gael er mwyn cynorthwyo athrawon i gynllunio ar draws y cwricwlwm.

## Nodweddion allweddol y FfLlRh

Mae gan y FfLlRh nifer o nodweddion allweddol.

- Mae'n pennu'r sgiliau yr ydym yn disgwyl i ddysgwyr eu datblygu drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol, o 5 i 14 oed, ac wedi'i rhannu yn ôl grwpiau blwyddyn.
- Fe'i rhennir yn gydrannau llythrennedd a rhifedd, a rhennir y cydrannau hynny yn llinynnau.
- Y llinynnau llythrennedd yw: darllen er gwybodaeth, ysgrifennu er gwybodaeth a llafaredd.
- Y llinynnau rhifedd yw: datblygu ymresymu rhifyddol, defnyddio sgiliau rhif, defnyddio sgiliau mesur a defnyddio sgiliau data.
- Rhennir pob llinyn yn elfennau pellach, ac fe gaiff llythrennedd ei rannu'n agweddau.
- Mae'r elfen llythrennedd ar gael ar gyfer y Gymraeg ac ar gyfer y Saesneg. Mae'r disgwyliadau yn Gymraeg ac yn Saesneg yn debyg y naill i'r llall, gydag ambell elfen unigryw yn y gydran llythrennedd Gymraeg i adlewyrchu gofynion unigryw yr iaith Gymraeg.
- Yn ogystal â bod yn ofyniad ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm, mae'r FfLlRh hefyd i gael ei ddefnyddio gan athrawon ar gyfer asesu ffurfiannol.
- Fe'i defnyddir yn sail ar gyfer asesiad athrawon o sgiliau llythrennedd a rhifedd dysgwyr, ac adroddir wrth rieni/gofalwyr yn ei gylch yn flynyddol.

Ar ôl ymgynghori, bydd fersiwn derfynol y FfLlRh ar gael ar-lein o fis Ionawr 2013 i'w ddefnyddio'n anstatudol ac yn statudol gan ysgolion o fis Medi 2013.

Fe'i cefnogir yn llawn gan ystod gynhwysfawr o ganllawiau a deunyddiau hyfforddi ar-lein, a byddwn yn asesu'r angen am hyfforddiant pellach.

## Ynglŷn â'r FfLlRh

### Beth yw perthynas y FfLlRh â'r cwricwlwm cyfan?

Offeryn cynllunio'r cwricwlwm yw'r FfLlRh, sy'n adeiladu ar yr arfer da sy'n bodoli eisoes mewn llawer o ysgolion. Mae'n anelu i gyflwyno ymagweddau cydlynol tuag at ddatblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm, gan hysbysu athrawon pob pwnc ynghylch sut y gellir rhoi cyfle i ddysgwyr gymhwyso llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae angen dull cwbl drawsgwricwlaidd o gynllunio i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, yn hytrach na chanolbwyntio ar wersi Cymraeg, Saesneg a mathemateg.

Yn y cwricwlwm cenedlaethol a weithredwyd o 2008 ymlaen, cyflwynwyd ymagwedd seiliedig ar sgiliau tuag at y cwricwlwm er mwyn sicrhau bod sgiliau'n cael eu datblygu ar draws y cwricwlwm. Tanategir hyn gan y fframwaith sgiliau anstatudol sy'n trafod sgiliau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif. Fel y nodir yn gynharach yn y ddogfen hon, ceir tystiolaeth gref nad yw'r fframwaith sgiliau wedi llwyddo i gyflawni'r nodau hyn i'r graddau a fwriadwyd. Mae'r FfLlRh yn adeiladu ar y disgwyliadau a bennwyd yn y fframwaith sgiliau, ond bydd yn ofyniad statudol o fewn y cwricwlwm, gan greu sylfaen well er mwyn cynllunio'r cwricwlwm cyfan. Bydd hefyd yn sicrhau mwy o eglurder er mwyn i athrawon asesu ac olrhain dilyniant sgiliau. Bydd y FfLlRh yn disodli'r cydrannau cyfathrebu a rhif yn y fframwaith sgiliau anstatudol. Bydd y cydrannau sgiliau meddwl a TGCh yn parhau heb eu newid er mwyn rhoi arweiniad i ysgolion ar y sgiliau pwysig hyn, ac ystyrir y rhain ar wahân mewn canllawiau yn y dyfodol.

Wrth ddatblygu'r FfLlRh rydym wedi gorfod rhoi ystyriaeth ofalus i'r hyn y dylid eu pennu'n ddisgwyliadau priodol ar gyfer pob oedran a chyfnod allweddol. Yn ystod y broses, codwyd cwestiynau ynghylch gofynion y cwricwlwm cyfredol, yn enwedig o ran Cymraeg, Saesneg a mathemateg, a ph'un a oedd y lefelau cyrhaeddiad cyfredol a bennwyd yn y Gorchmynion pwnc yn ddigon trwyadl neu'n ymestyn gallu'n ddigonol. Mewn rhai achosion, mae'r disgwyliadau a bennir yn y FfLlRh yn anelu i godi'r safon. Rydym wedi manteisio ar y cyfle i ail-gysoni disgwyliadau er mwyn sicrhau bod gennym ymagwedd drwyadl tuag at godi safonau a thuag at sicrhau bod ein dysgwyr yn gwireddu eu potensial. Golyga hyn fod disgwyliadau'r FfLlRh ar gyfer diwedd Cyfnod Allweddol 2 yn nes at Lefel 5 a bod y disgwyliadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 yn nes at Lefel 6. Yn sgil hyn, rydym yn ystyried y trefniadau asesu cyfredol ac yn taro golwg ehangach ar y cwricwlwm er mwyn sicrhau cysondeb.

**Beth fydd y FfLlRh yn ei wneud a sut y caiff ei drefnu?**
Yn y FfLlRh ceir disgrifiad manwl o'r sgiliau yr ydym yn disgwyl i blant a phobl ifanc eu caffael a'u meistroli o 5 i 14 oed. Mae'n cynnwys dwy gydran – llythrennedd a rhifedd. Rhennir y rhain i'r llinynnau canlynol.

O fewn **llythrennedd**, disgwyliwn i blant a phobl ifanc ddatblygu medrusrwydd yn:

- darllen er gwybodaeth
- ysgrifennu er gwybodaeth
- llafaredd.

O fewn **rhifedd**, disgwyliwn i blant a phobl ifanc ddatblygu medrusrwydd yn:

- datblygu ymresymu rhifyddol
- defnyddio sgiliau rhif
- defnyddio sgiliau mesur
- defnyddio sgiliau data.

Mae'r FfLlRh yn canolbwyntio ar y modd y bydd dysgwyr yn **caffael** sgiliau a chysyniadau, a'u gallu i **gymhwyso'r** hyn y maent wedi'i ddysgu i gwblhau tasgau realistig sy'n briodol i'w cyfnod datblygu.

Bydd athrawon yn gallu defnyddio'r FfLlRh i:

- ddatblygu cynnwys cwricwlwm er mwyn sicrhau y caiff pob dysgwr gyfle i ddatblygu a mireinio'r sgiliau a nodir yn y FfLlRh
- integreiddio llythrennedd a rhifedd i'w haddysgu – beth bynnag fo'r pwnc dan sylw
- goleuo trafodaethau â rhieni/gofalwyr, dysgwyr ac athrawon eraill ynghylch perfformiad dysgwyr
- cynorthwyo dysgwyr gyda'u gweithgareddau eu hunain o ran hunanasesu a chynllunio ar gyfer dysgu
- monitro, asesu ac adrodd ynghylch perfformiad dysgwyr unigol
- clustnodi dysgwyr a allai elwa ar ymyrraeth neu sy'n gweithio y tu hwnt i'r disgwyliadau'n gysylltiedig â'u hoedran.

Bydd dysgwyr a rhieni/gofalwyr yn elwa ar y ddealltwriaeth gliriach o sgiliau llythrennedd a rhifedd, a'r darlun gwell o anghenion dysgu a dilyniant a geir drwy'r FfLlRh.

## A yw'r FfLlRh yn cynnwys dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)?

Bwriadwn i'r FfLlRh gynnwys pob dysgwr. Rydym felly wedi llunio cyfres o ddisgwyliadau sy'n cynnwys pob plentyn, a byddwn yn sicrhau bod dysgwyr a chanddynt ADY yn cael eu cynnwys ym mhob elfen. Nodir dilyniant o'r sgiliau rhagflaenol cynnar a ddisgrifir yn fanwl ym map llwybrau *Ar Drywydd Dysgu* (ar gael yn www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/additionaleducationalneeds/routeslearning/?skip=1&lang=cy). Mae'r fframwaith yn gosod sut y caiff sgiliau dysgwyr eu mireinio a'u hymestyn wrth iddynt wneud cynnydd tuag at y safonau disgwyliedig ar gyfer y Dosbarth derbyn. Ni fydd rhai elfennau o'r sgiliau'n dod i'r amlwg tan yn ddiweddarach yn y FfLlRh. Mewn achosion o'r fath, dangosir hynny drwy liwio'r celloedd perthnasol yn y FfLlRh yn llwyd.

Bydd athrawon, dysgwyr, rhieni a gofalwyr yn defnyddio'r datganiadau o gynnydd hyn mewn ffyrdd tebyg i'r rhai a ddisgrifir uchod. Mae'r FfLlRh hefyd yn disgrifio continwwm datblygiad ac mae'n bosibl y bydd dysgwyr yn datblygu ymhellach neu ynghynt mewn rhai agweddau nag mewn agweddau eraill, gyda chyflawniadau yn digwydd dros sawl blwyddyn. Gallai hyn fod yn arbennig o wir yn achos dysgwyr ag ADY, yn enwedig lle gallai anabledd fod yn atal dysgwr rhag gallu cyflawni eitemau penodol.

Dylai ysgolion gynnig mwy o her i ddysgwyr mwy galluog a thalentog sy'n gweithio ar lefelau uwch. Gellir cynyddu lefel y gofyn drwy ehangu tasgau, eu gwneud yn fwy manwl neu'n fwy cymhleth.

## Sut bydd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn defnyddio'r FfLlRh?

Ceir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o gydran llythrennedd y FfLlRh, gan gydnabod natur unigryw'r naill iaith a'r llall. Fodd bynnag, mae fersiynau Cymraeg a Saesneg cydran llythrennedd y FfLlRh yn debyg iawn i'w gilydd, a bydd hyn yn gymorth i ysgolion wrth gynllunio.

Mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, rydym yn cydnabod y gallai'r broses o gaffael sgiliau iaith a llythrennedd yn y blynyddoedd cynnar ddilyn patrwm gwahanol, ac y bydd iaith cartref y plentyn a'r defnydd o fethodoleg trochi i ddatblygu sgiliau Cymraeg plant yn effeithio ar gynnydd y dysgwr o'r naill flwyddyn i'r nesaf. O ganlyniad

i hynny, o'r Dosbarth derbyn hyd at Flwyddyn 3, yn gynwysedig, cynigiwn na ddylid ond ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion cyfrwng Cymraeg ddefnyddio cydran llythrennedd Cymraeg y FfLlRh (ochr yn ochr â rhifedd). O Flwyddyn 4 ymlaen, byddwn yn disgwyl i ysgolion cyfrwng Cymraeg ddefnyddio'r cydrannau Cymraeg a Saesneg. Wrth gwrs, caiff ysgolion ddefnyddio'r gydran Saesneg ar gyfer Dosbarthiadau derbyn a Blynyddoedd 1–3 os dymunant. Byddem yn gwerthfawrogi cael eich safbwyntiau ynglŷn â'r cynnig hwn, ac mae cwestiwn penodol ynghylch hyn wedi'i gynnwys yn y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad.

Caiff y FfLlRh ei ddefnyddio gan ysgolion cyfrwng Cymraeg wrth gynllunio'r cwricwlwm, gan sicrhau bod yr holl athrawon yn ymgorffori sgiliau llythrennedd a rhifedd yn eu haddysgu fel y disgrifiwyd eisoes. Bydd y FfLlRh yn darparu gwybodaeth ar gyfer asesiadau athrawon a bydd yr asesiadau hyn yn rhai ffurfiannol. Golyga hyn y bydd athrawon, wrth ddarparu asesiad naratif ac adrodd wrth rieni/gofalwyr, yn gallu rhoi datblygiad ieithyddol dysgwyr yn ei gyd-destun, yn enwedig pan nad Cymraeg fydd iaith cartref y dysgwr.

## Sut mae'r FfLlRh yn cefnogi dilyniant pob dysgwr?

Mae sefydlu disgwyliadau o'r naill flwyddyn i'r nesaf yn sicrhau eglurder er mwyn cefnogi dilyniant. Mae'n rhoi dealltwriaeth glir i athrawon o'r hyn y mae disgwyl i blant ei gyflawni, a'r hyn y byddant yn symud ymlaen i'w ddysgu yn y blynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod nad yw pob plentyn yn datblygu yn yr un ffordd, a gall trywydd datblygiad plant amrywio, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar. Serch hynny, gan fod y FfLlRh wedi'i rannu fesul blwyddyn, gall athrawon sicrhau eu bod yn ymgorffori'r sgiliau priodol wrth gyflenwi'r cwricwlwm a'i gynnwys.

Mae'r FfLlRh hefyd yn caniatáu i athrawon ystyried anghenion eu dysgwyr mwy galluog. Mae'n galluogi athrawon i gefnogi a chynllunio i ddatblygu sgiliau pan fydd dysgwyr yn gwneud cynnydd ynghynt na'r hyn a ddisgwylid yn arferol, a lle gallai dysgwyr elwa ar gael eu hymestyn neu eu herio ymhellach.

Mae'n bwysig pennu'r disgwyliadau o'r naill flwyddyn i'r nesaf ar gyfer pob dysgwr er mwyn sicrhau bod dilyniant y dysgwr yn eglur a bod y blociau adeiladu sy'n hanfodol er mwyn datblygu sgiliau wedi'u sefydlu ar gyfer pob dysgwr.

## Sut mae'r FfLlRh yn cefnogi asesu?

Offeryn cynllunio'r cwricwlwm yw'r FfLlRh yn bennaf. Mae hefyd yn offeryn asesu, am ei fod yn darparu gwybodaeth ar gyfer asesiadau athrawon. Bwriedir i ysgolion ac athrawon unigol ddefnyddio'r FfLlRh i gynnal asesiadau ffurfiannol er mwyn cefnogi cynnydd dysgwyr, a chynllunio o fewn yr ystafell ddosbarth a'r cwricwlwm. Bydd yr asesiad ar ffurf naratif, gan ganiatáu hyblygrwydd yng nghynnydd y dysgwyr – ni fwriedir iddo fod yn ymagwedd 'ffit orau'. Bydd athrawon yn defnyddio'r FfLlRh i:

- asesu cynnydd unigol yn sail ar gyfer trafodaeth ddeallus â dysgwyr, rhieni/gofalwyr a rhwng athrawon ynglŷn â chryfderau presennol dysgwyr a meysydd i'w datblygu
- asesu cynnydd grwpiau yn sail ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm a datblygiad yr ysgol.

Bydd dilyniant drwy'r FfLlRh yn dangos sut mae dysgwyr yn perfformio yn erbyn y disgwyliadau ar gyfer llythrennedd a rhifedd ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd.

Ni chesglir unrhyw ddata cenedlaethol mewn perthynas ag asesiadau a wneir yn erbyn y FfLlRh. Ni fydd disgwyl i athrawon ddefnyddio'r FfLlRh er mwyn llunio datganiad unigol ynghylch a yw dysgwr yn gweithio ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer ei oedran, neu'n uwch/is na'r lefel honno, ac ni fyddai'n briodol iddynt wneud hynny chwaith. Yn lle hynny, dylid defnyddio'r FfLlRh a'r asesu yn ei erbyn yn gymorth i ddisgrifio dilyniant dysgwr, ei gryfderau a'r camau nesaf ar gyfer datblygu.

Ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, mae angen i'r cynllunio ar gyfer asesu fod yn wirioneddol drawsgwricwlaidd, yn hytrach na bod hynny wedi'i gwblhau drwy'r pynciau Cymraeg, Saesneg a mathemateg yn unig. Bydd angen i ysgolion fod yn fodlon bod cyfundrefnau ysgolion cyfan wedi'u sefydlu i gefnogi'r asesiad trawsgwricwlaidd o sgiliau llythrennedd a rhifedd.

Bydd disgwyl i ysgolion roi adroddiad blynyddol i rieni/gofalwyr ar gynnydd, cryfderau a meysydd i'w datblygu gan unigolion mewn llythrennedd a rhifedd, ac adrodd yn flynyddol ar gynnydd a safonau cyffredinol ar draws yr ysgol. Rydym yn disgwyl i'r adroddiadau hyn fod ar ffurf naratif.

Bydd yr asesiadau a gynhelir yn erbyn y FfLlRh yn esgor ar wybodaeth werthfawr am batrymau perfformiad, cryfderau a meysydd sy'n destun pryder. Bydd hyn yn ddefnyddiol i athrawon, rhieni/gofalwyr, llywodraethwyr a'r rhai sy'n cefnogi gwelliant yr ysgol ar lefel lleol neu lefel rhanbarthol.

## Sut mae'r FfLlRh yn cyd-fynd â'r profion cenedlaethol?

Yn ychwanegol at y FfLlRh a'r asesiadau naratif ffurfiannol a wneir yn ei erbyn, rydym yn cyflwyno profion cenedlaethol darllen a rhifedd.

Bydd y rhain yn darparu data crynodol, a gesglir ac a ddadansoddir yn genedlaethol ac a ddefnyddir yn rhan o'r model atebolrwydd cenedlaethol. Bydd data o'r profion yn rhoi dangosyddion clir i athrawon o ddatblygiad a chynnydd sgiliau, ac yn gyfraniad pwysig tuag at y dystiolaeth a ddefnyddir gan athrawon i farnu'n flynyddol ynglŷn â'r sgiliau y mae'r dysgwyr wedi'u caffael.

Bydd asesiadau yn erbyn y FfLlRh a deilliannau profion yn rhoi gwahanol safbwyntiau ynglŷn â chynnydd dysgwr. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith eu bod yn asesu agweddau ar yr un sgiliau sydd ychydig yn wahanol i'w gilydd, a bod y naill yn rhoi cipolwg cryno a'r llall yn defnyddio amrywiaeth llawer ehangach o dystiolaeth.

Lle bo canlyniadau profion yn ymddangos fel pe baent yn gwrthdaro â deilliannau yn erbyn y FfLlRh neu mewn asesiadau eraill, y peth pwysicaf fydd i athrawon ystyried y rhesymau am unrhyw wahaniaethau, a mynd i'r afael â'r rhesymau hynny mewn modd priodol.

## Trosolwg o gydran llythrennedd y FfLlRh

Llythrennedd yw defnyddio sgiliau iaith mewn gweithgareddau bob dydd yn yr ysgol, yn y cartref, yn y gwaith ac yn y gymuned. Mae'n cynnwys defnyddio sgiliau llythrennedd a gwybod sut i ddefnyddio'r Gymraeg a Saesneg.

Mae llythrennedd yn disgrifio cyfres o sgiliau, gan gynnwys siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu, sy'n ein galluogi i wneud synnwyr o'r byd o'n hamgylch. Mae llythrennedd yn golygu mwy na'r gallu mecanyddol i ddadgodio geiriau ar dudalen neu i ysgrifennu brawddeg gramadegol gywir, er bod y rhain yn sgiliau hanfodol yn eu hawl eu hunain. Mae'n golygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddeall iaith ysgrifenedig

ac iaith lafar, i ddehongli'r hyn sydd wedi cael ei ysgrifennu neu ei ddweud, i greu casgliadau o'r dystiolaeth sydd o'n hamgylch. Mae hefyd yn golygu gallu cymryd ein tro wrth gyfathrebu – yn rhugl, yn gymhellol ac yn ddarbwyllol.

Mae llythrennedd yn seiliedig ar ddatblygu darllen, ysgrifennu ac iaith lafar ar draws pob maes pwnc. Mae'r gydran llythrennedd wedi'i dylunio i asesu gallu dysgwyr i ddefnyddio'r sgiliau darllen, ysgrifennu a llafaredd y maent wedi'u dysgu i fynd i'r afael â thasgau a phroblemau realistig sy'n addas i'w hoedran. Nid yw llythrennedd yr un peth â Chymraeg neu Saesneg, felly nid yw disgwyliadau'r FfLlRh yn mynd i'r afael â phob agwedd ar y Gorchmynion pwnc Cymraeg a Saesneg. Mae angen eu defnyddio ar y cyd â ffurfiau asesu eraill er mwyn creu darlun cynhwysfawr o gyflawniad dysgwyr.

**Y cyswllt â'r cwricwlwm**

Mewn ysgolion, mae'r holl athrawon yn gyfrifol am ddatblygu ac am asesu sgiliau llythrennedd, ac nid yr arbenigwr(wyr) iaith yn unig. Bydd y gydran llythrennedd yn y FfLlRh yn cynorthwyo athrawon mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig i fynd i'r afael â'r gofynion o ran sgiliau yn y rhaglenni astudio Cymraeg/Saesneg. Disgwylir i bob dysgwr gymhwyso ac ymestyn ei sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm.

**Dilyniant mewn llythrennedd**

Nod y safonau llythrennedd yw annog dysgwyr i ddatblygu a dangos eu sgiliau llafaredd (siarad a gwrando), darllen ac ysgrifennu i ddibenion amrywiol. Yn eu hanfod, mae'r safonau yn ymwneud â datblygu a chydnabod gallu dysgwyr i ddewis a chymhwyso sgiliau llythrennedd mewn modd sy'n briodol ar gyfer pob cyd-destun.

Mae'r safonau wedi'u cynllunio i gydnabod dilyniant dysgwyr o ran y technegau tanategol yn ogystal â'r sgiliau i'w cymhwyso.

Bydd pob disgwyliad sy'n gysylltiedig ag oedran yn adeiladu ar ddisgwyliad y flwyddyn gynt er mwyn sicrhau dilyniant ym mhob elfen o'r naill flwyddyn i'r llall. Mae'n bwysig nodi, lle bo geiriad y disgwyliad yn union yr un peth â disgwyliadau y flwyddyn gynt, fod y dilyniant wedi'i gynnwys mewn agwedd arall o'r disgwyliadau, er enghraifft bydd y strategaethau a'r heriau'n gofyn mwy gan y dysgwr ym mhob cam.

Efallai y bydd dysgwyr ag ADY yn gweithio ar lefel is na'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran yn ystod y rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'u cyfnod yn yr ysgol. O ganlyniad, o dan Dosbarth derbyn, mae'r datganiadau'n adlewyrchu cynnydd graddol, ond nid ydynt yn gysylltiedig ag oedran.

**Llinynnau llythrennedd**
Mae'r FfLlRh yn canolbwyntio ar dri maes llythrennedd, ac mae gwahanol elfennau o fewn y llinynnau hynny. Nodir y rhain isod.

### Llinyn 1 – Darllen er gwybodaeth

Mae'r safonau perfformiad ar gyfer darllen yn disgrifio cyflawniad dysgwr wrth ddarllen er gwybodaeth.

Drwy ddarllen, bydd pobl yn cyrchu'r syniadau, yr wybodaeth a'r profiadau sy'n gymorth iddynt eu deall eu hunain a'u byd, ac i ddysgu a gweithio'n effeithiol. Bydd pobl hefyd yn darllen er difyrrwch.

Er mai prif ffocws Gorchmynion pwnc Cymraeg a Saesneg y cwricwlwm cenedlaethol yw sgiliau darllen, rhaid i ddysgwyr ymestyn y sgiliau hyn a'u cymhwyso ar draws pob maes o fewn y cwricwlwm. Bydd cydran llythrennedd y FfLlRh yn helpu athrawon i gynllunio ac asesu i ba raddau y bydd dysgwyr yn gallu defnyddio'r sgiliau a'r strategaethau mewn tasgau pwrpasol sy'n addas i'r oed dan sylw, mewn ymagwedd drawsgwricwlaidd ysgol gyfan.

Mae'r llinyn darllen er gwybodaeth yn canolbwyntio ar dair elfen.

- Strategaethau darllen
  - Defnyddio sgiliau geiriau a strategaethau deall.
  - Cyrchu gwybodaeth er mwyn cadarnhau ystyr.
  - Tystiolaeth o arsylwi dysgwyr a gwrando arnynt yn darllen.
- Dealltwriaeth, ac ymateb a dadansoddi
  - Nodi'r prif syniadau, y prif ddigwyddiadau a'r manylion ategol.
  - Rhagweld, gan ddod i gasgliadau a disgrifio perthnasoedd.
  - Creu cysylltiadau oddi mewn i destunau/themâu, ac ar draws amrywiaeth o destunau/themâu, ac o brofiad personol.
  - Cynnig barn, gan roi dadansoddiad beirniadol o neges a thechnegau'r awdur.

## Llinyn 2 – Ysgrifennu er gwybodaeth

Bydd pobl yn ysgrifennu i gofnodi ac archwilio'u meddyliau, eu teimladau a'u barn; i gyfathrebu ag eraill; ac i gyfleu eu syniadau drwy rym a phrydferthwch iaith.

Ceir cysylltiad cryf rhwng gallu dysgwr i gyfleu syniadau a'i lwyddiant oddi mewn ac oddi allan i'r ysgol. Mae ysgrifennu er gwybodaeth yn cynnwys gwaith y bwriedir iddo gyflwyno gwybodaeth (e.e. erthyglau neu adroddiadau), amlinellu gweithdrefnau (e.e. cyfarwyddiadau) a darbwyllo eraill (e.e. erthyglau golygyddol).

Mae'r llinyn ysgrifennu er gwybodaeth yn canolbwyntio ar bum elfen.

- Ystyr
  - Cynllunio ac addasu arddull ysgrifennu i weddu i'r gynulleidfa ac i'r diben.
  - Gwella ysgrifennu drwy adolygu ac ailddrafftio'n annibynnol.
- Ffurf
  - Sylw i 'reolau' y ffurf ysgrifennu neilltuol (e.e. storïau newyddion, cyfarwyddiadau).
  - Trefnu syniadau a gwybodaeth.
- TGCh
  - Defnyddio rhaglenni TGCh fwyfwy cymhleth i wella ansawdd cyflwyniadau.
- Iaith
  - Ieithwedd a mynegiant sy'n gyson â'r pwnc a'r cynnwys.
- Cyflwyniad, sillafu, atalnodi a threiglo
  - Eglurder, sillafu, atalnodi, gramadeg a strwythur brawddegau.

Bydd yr union faen prawf ar gyfer pob agwedd yn amrywio, yn dibynnu ar natur yr ysgrifennu ac ar yr oedran.

## Llinyn 3 – Llafaredd

Bydd pobl yn cyfleu eu hanghenion, eu teimladau a'u meddyliau; yn ailadrodd eu profiadau wrth eraill; ac yn mynegi'u syniadau drwy rym a phrydferthwch y gair llafar. Bydd pobl yn cyfeirio at eu bwriadau drwy ofyn cwestiynau, lleisio/mynegi barn a thrwy wneud dewisiadau drwy amrywiaeth o gyfryngau, a thrwy adeiladu ar brofiadau blaenorol. Mae gwrando ar eraill ac ar amrywiaeth o gyfryngau eraill ac ymateb iddynt yn briodol, yn rhan annatod o ddatblygiad a'r defnydd o iaith.

Mae'r llinyn llafaredd yn canolbwyntio ar dair elfen.

- Siarad
  – Cyfleu syniadau a gwybodaeth wrth amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd ac mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.
- Gwrando
  – Gwrando ac ymateb i safbwyntiau a syniadau eraill.
- Cydweithio a thrafod
  – Cyfrannu tuag at drafodaethau a chyflwyniadau.
  – Trafod safbwyntiau/syniadau eraill, a rhannu syniadau a barn bersonol.

## Trosolwg o gydran rhifedd y FfLlRh

Ystyr rhifedd yw cymhwyso dealltwriaeth fathemategol mewn gweithgareddau beunyddiol yn yr ysgol, yn y cartref, yn y gwaith ac yn y gymuned. Mae rhifedd yn golygu mwy nag addysgu rheolau a gweithdrefnau mathemateg. Fodd bynnag, mae'n hanfodol addysgu technegau mathemategol sylfaenol hyd at safon sy'n galluogi dysgwyr i fod yn rhifog.

Mae rhifedd yn disgrifio'r gyfres o sgiliau sydd eu hangen i fynd i'r afael â phroblemau yn y byd go iawn mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd drwy ddefnyddio ymresymu rhifyddol i gynllunio sut i ddatrys y broblem, ac yna dilyn y gweithdrefnau mathemategol i ganfod yr ateb.

Mae rhifedd yn wahanol i fathemateg fel pwnc am ei fod yn ymwneud â chymhwyso'r sgiliau a ddysgir mewn mathemateg yn drawsgwricwlaidd ac yn y byd go iawn, yn hytrach na'r sgiliau ohonynt eu hunain. Adlewyrchir hyn yng nghydran rhifedd y FfLlRh, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 3, lle na ddisgwylir i'r sgiliau o ran gweithdrefnau fod yn llawer uwch, ond lle bydd cyd-destun y broblem yn troi'n anoddach gan olygu bod disgwyl i'r sgiliau ymresymu (e.e. sut i ddatrys y broblem) ddatblygu.

**Y cyswllt â'r cwricwlwm**
Mewn ysgolion, mae'r **holl** athrawon yn gyfrifol am ddatblygu ac am werthuso sgiliau rhifedd. Yn dibynnu ar y tasgau a gaiff eu llunio neu eu dewis, bydd defnyddio'r gydran rhifedd yn cynorthwyo athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac mewn ysgolion arbennig i fynd i'r afael ag amrywiaeth eang o ddeilliannau o'r rhaglenni astudio mathemateg.

Disgwylir i ddysgwyr ym mhob ysgol gymhwyso ac ymestyn eu sgiliau rhifedd ar draws pob maes pwnc (e.e. darllen/llunio map mewn gwers ddaearyddiaeth, olrhain cynnydd mewn addysg gorfforol, defnyddio persbectif yn y celfyddydau gweledol, ac ati). Mae cydran rhifedd y FfLlRh felly wedi cael ei datblygu i fod yn berthnasol i bob maes o fewn y cwricwlwm.

Fel arfer, bydd tasgau a phroblemau rhifedd yn cynnwys cysyniadau a sgiliau o bob rhan o'r cwricwlwm, a gellir eu rhannu'n grwpiau yn ôl diben neu gyd-destun, e.e. wrth reoli cyllid.

**Dilyniant mewn rhifedd**
Arddangosir dilyniant drwy'r cyfnodau yn y gallu cynyddol i ddatrys problemau'n annibynnol ac i ddilyn y gweithdrefnau mathemategol perthnasol.

Mae'n bwysig nodi, lle bo geiriad disgwyliad yn union yr un peth mewn gwahanol oedrannau, fod y dilyniant wedi'i gynnwys mewn agwedd arall ar y disgwyliadau, neu yn y ffaith bod y broblem dan sylw'n fwy cymhleth. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos Cyfnod Allweddol 3, lle mae'r dysgwyr yn gwybod llawer o'r gweithdrefnau rhifyddol, ond yr her yw gwella'r ymresymu rhifyddol drwy osod tasgau sy'n fwyfwy cymhleth.

**Llinynnau rhifedd**
Mae'r FfLlRh yn canolbwyntio ar bedwar llinyn rhifedd, ac mae'r llinynnau hynny'n cynnwys gwahanol elfennau. Bydd y disgwyliadau ym mhob un o'r llinynnau yn gymorth i athrawon bennu'n fanwl gywir y cynnydd a ddisgwylir yn y sgiliau hyn mewn cyd-destun sy'n addas i'r oedran. Bydd y deunydd enghreifftiol ategol yn dangos sut mae gweld y sgiliau hyn mewn tasgau o bob rhan o'r cwricwlwm. Nodir y llinynnau isod.

### Llinyn 1 – Datblygu ymresymu rhifyddol
Mae sgiliau ymresymu'n bwysig ar gyfer rhifedd am eu bod yn disgrifio'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn adnabod pa weithdrefnau sydd eu hangen i ddatrys problem yn y byd go iawn.

Drwy ymresymu, gall pobl sylweddoli sut i ddefnyddio rhifau er mwyn ymdrin â sefyllfa yn y byd go iawn, â chynllunio strategaeth i'w datrys. Mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, mae'r gallu i ddefnyddio rhifau i ymresymu'n galluogi pobl i gyrchu a deall gwybodaeth fel ystadegau chwaraeon, darllen mapiau, adeiladu rhywbeth ar raddfa, rheoli arian ac eraill. Heb y sgìl hwn, ni fyddai pobl yn gallu defnyddio'u gallu mathemategol yn y byd go iawn.

Mae'r elfennau o dan y llinyn hwn yn cyfeirio at y sgiliau sydd eu hangen i nodi'r prosesau sydd eu hangen i ddatrys problem yn y byd go iawn, sut i gyfleu'r dull hwnnw wrth wneud gwaith cyfrifo, a sut i greu casgliadau drwy adolygu eu prosesau a'u hatebion eu hunain i weld a ydynt yn rhesymol. Mae'r llinyn datblygu ymresymu rhifyddol yn canolbwyntio ar dair elfen.

- Nodi prosesau a chysylltiadau.
- Cynrychioli a chyfathrebu.
- Adolygu.

Cyn gynted ag y gwyddys sut i ddatrys problem, ceir cyfres ar wahân o sgiliau er mwyn dilyn y gweithdrefnau i gael yr ateb cywir. Gellir rhannu'r gweithdrefnau hyn ymhellach i ddefnyddio sgiliau rhif, mesur a thrin data, ac adlewyrchir hyn yn strwythur y gydran rhifedd.

**Llinyn 2 – Defnyddio sgiliau rhif**

Bydd sgiliau rhif yn disgrifio'r sgiliau sylfaenol sydd eu hangen i fod yn gynefin â defnyddio a thrin rhifau wrth ddilyn gweithdrefnau. Dyma sut y bydd dysgwr yn dysgu sut i gyfrif, yn dysgu bod trefn benodol i rifau, bod modd cynrychioli rhifau nad ydynt yn gyfan mewn amryw o ffyrdd, ac yn dysgu sut i ddefnyddio strategaethau gwirio er mwyn sicrhau bod gweithdrefn wedi'i dilyn yn gywir.

Mae cyd-destun penodol arian, a blociau adeiladu addysg ariannol hefyd wedi'u hadlewyrchu yn y llinyn hwn. Mae'r llinyn defnyddio sgiliau rhif yn canolbwyntio ar bum elfen.

- Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau.
- Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymarebau.
- Cyfrif yn y pen ac yn ysgrifenedig.
- Amcangyfrif a gwirio.
- Arian.

**Llinyn 3 – Defnyddio sgiliau mesur**

Yn bennaf, bydd sgiliau mesur yn adlewyrchu pa mor bwysig yw gwybod pa fesuriadau i'w defnyddio ym mha gyd-destun, pa unedau safonol i'w defnyddio, ac yn manylu ynghylch sut a phryd y gellir cyflwyno'r cysyniadau hyn. Yn ddiweddarach, cyflwynir y cysyniad o gymysgu unedau er mwyn creu mesuriadau cyfansawdd, e.e. cyflymder ar ffurf metrau yr eiliad. Mae'r llinyn defnyddio sgiliau mesur yn canolbwyntio ar bum elfen.

- Hyd, pwysau (màs) a chynhwysedd.
- Amser.
- Tymheredd.
- Arwynebedd a chyfaint.
- Ongl.

**Llinyn 4 – Defnyddio sgiliau data**

Mae cynrychioli canlyniadau gwaith datrys problem neu gwestiwn yn golygu trin data, a gellir gwneud hynny drwy amryw o ffyrdd, megis drwy ateb unigol, tabl neu ryw fath o siart. Mae defnyddio'r weithdrefn trin data gywir neu orau yn sgìl gweithdrefnol ynddo'i hun, a bydd y maes hwn yn y gydran yn gymorth i ddangos pa sgiliau y gall athrawon ddisgwyl eu gweld ymysg dysgwyr mewn grŵp blwyddyn penodol, sy'n gweithredu ar eu lefel ddisgwyliedig.

Bydd sgiliau data uwch hefyd yn galluogi'r dysgwr i greu casgliadau a rhagdybiaethau o'r canlyniadau hyn. Mae'r llinyn defnyddio sgiliau data yn canolbwyntio ar dair elfen.

- Casglu a chofnodi data.
- Cyflwyno a dadansoddi data.
- Dehongli canlyniadau.

# Adran 2: Profion Cenedlaethol Darllen a Rhifedd

Yn ei brif araith 'Codi Safonau Ysgol' ar 29 Mehefin 2011, gerbron y Sefydliad Materion Cymreig, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y bwriad i gyflwyno profion cenedlaethol mewn darllen a rhifedd ar gyfer pob dysgwr ym Mlynyddoedd 2 i 9.

## Diben a nodau'r profion darllen a rhifedd

Ar hyn o bryd does dim patrwm cyson o ran defnyddio profion darllen a rhifedd ledled Cymru.

Y bwriad yw y bydd yn ofynnol yn statudol i holl ysgolion Cymru ddefnyddio profion darllen a rhifedd pwrpasol Llywodraeth Cymru, a hynny bob blwyddyn. Bydd yn ofynnol i bob dysgwr ym Mlynyddoedd 2 i 9, neu sy'n 7 i 14 oed, mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru sefyll y profion. Bydd y profion ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae asesu o safon yn bwydo gwaith dysgu; mae'n gwneud mwy na mesur yn unig. Gall fod yn sail hefyd i waith cloriannu mewnol, rhoi gwybodaeth i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr, a chyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud ag atebolrwydd allanol.

Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi gosod disgwyliad clir y caiff rhywfaint o'r data a gynhyrchir gan y profion cenedlaethol ei ddefnyddio fel rhan o'r fframwaith atebolrwydd ac y dylai'r data i gyd gael ei ddefnyddio i ategu gwaith effeithiol i gynllunio, hunanwerthuso a thracio dysgwyr.

Rhaid i'r data sy'n cael ei ddefnyddio i ategu atebolrwydd a hunanwerthuso fod yn ddibynadwy, yn ddilys ac yn gyson; data asesiadau crynodol sydd fwyaf addas at y diben hwn.

Serch hynny, er mwyn sicrhau bod y profion cenedlaethol mor fuddiol ag y bo modd er mwyn bwydo'r gwaith dysgu yn ogystal â'i fesur ac er mwyn ei gwneud yn haws i'r ysgolion roi'r profion ar waith, rydym yn cydnabod bod angen elfennau crynodol a ffurfiannol.

O ganlyniad, bydd y profion yn cynhyrchu'r data cymaradwy crynodol, dibynadwy iawn y mae ei angen i ganiatáu inni fesur cynnydd, cymharu a hoelio sylw ar berfformiad. Fe fyddant hefyd yn cynnwys elfennau ffurfiannol, gan gynhyrchu data y gall athrawon ei ddefnyddio i gael darlun manwl-gywir o ble mae'r dysgwr wedi cyrraedd o ran ei sgiliau a'i allu.

## Datblygu'r profion cenedlaethol

Mae dyluniad y profion wedi'i seilio ar ymchwil ynghylch defnyddio'r profion cyfredol a'r hyn sy'n cael ei gynnwys ynddynt a thystiolaeth ar yr hyn sy'n sicrhau bod profion darllen a rhifedd yn rhoi cymaint â phosibl o wybodaeth ac o gymorth ar gyfer gwella.

Er bod y mwyafrif o'r ysgolion yn defnyddio profion darllen ac er bod llawer yn defnyddio rhyw fath o brofion rhifedd neu fathemateg, dangosodd ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru nad oes ymagwedd gyson ledled Cymru.

O ganlyniad, does dim un farn ar safonau neu gynnydd nac ar rannu data a gwybodaeth werthfawr am allu'r dysgwyr. Does dim sail gyson ychwaith ar gyfer adnabod yr angen am ymyriadau a chymorth pellach nac ar gyfer asesu effaith y rhain.

Dangosodd ein hymchwil hefyd nad oedd y profion darllen Cymraeg a Saesneg a oedd ar gael yn cymharu'n uniongyrchol â'i gilydd a bod profion rhifedd neu fathemateg yn canolbwyntio'n bennaf ar asesu prosesau heb fawr o asesu ar y sgiliau rhesymu isorweddol a all fod yn fesur mwy effeithiol o wir sgiliau a photensial y dysgwyr mewn rhifedd.

Roedd y canfyddiadau ymchwil hyn yn ffactorau o bwys yn y penderfyniad i gomisiynu profion pwrpasol mewn darllen a rhifedd i'w defnyddio yng Nghymru.

I gael rhagor o fanylion ar yr ymchwil a wnaed ar gais penodol Llywodraeth Cymru, ewch i www.wales.gov.uk/about/aboutresearch/social/latestresearch/childrenmathematical/?skip=1&lang=cy

### Datblygu'r profion

I'r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA) y mae'r contract wedi'i ddyfarnu i ddatblygu'r profion darllen a rhifedd.

Mae'r profion yn cael eu datblygu ynghylch nifer o ofynion dylunio y bwriedir iddyn nhw sicrhau bod y profion mor ddefnyddiol â phosibl, gan greu cyn lleied o faich â phosibl a rhoi cymaint â phosibl o hyblygrwydd yn y trefniadau gweinyddol.

Rydym am i'r profion fod yn wir adlewyrchiad o alluoedd plant a phobl ifanc mewn darllen a rhifedd, yn hytrach na phrofi i ba raddau y maent yn ymdopi o dan amodau 'arholiad'.

Mae nodweddion cyffredinol y profion yn cynnwys y canlynol.

- Wedi'u dylunio i'w rhoi i grwpiau – gallai hynny olygu grwpiau bach, dosbarth neu grŵp blwyddyn yn unol ag oed y dysgwyr a'r dewisiadau yn lleol.
- Uchafswm o 60 munud i bob prawf er y bydd yna hyblygrwydd wrth roi'r profion i ganiatáu eu rhoi mewn tameidiau byrrach i'r dysgwyr ifancaf neu i'r rhai sydd ag anghenion ychwanegol.
- Ni fydd dyddiadau'r profion yn cael eu pennu'n genedlaethol; yn hytrach bydd yna gyfnod penodedig o ryw bythefnos pryd y bydd rhaid rhoi'r profion.
- Hyblygrwydd gweinyddol i ganiatáu profion mewn grwpiau llai pan fo'n briodol, e.e. i'r dysgwyr ifancaf.
- Adlewyrchiad o'r sgiliau sydd wedi'u nodi yn y FfLlRh.

Mae nodweddion penodol y profion darllen yn cynnwys y canlynol.

- Prif brawf statudol yn canolbwyntio ar sicrhau data crynodol dilys, gan ddefnyddio eitemau ymateb caeedig a byr yn bennaf; bydd y data o'r prawf hwn yn cael ei gasglu'n genedlaethol.
- Cyfres o ddeunyddiau asesu ffurfiannol ychwanegol a fydd ar gael i'w defnyddio yn ôl y disgresiwn lleol – bydd y rhain yn defnyddio cwestiynau ac iddyn nhw ymateb mwy agored; ni fydd data'n cael ei gasglu.
- Profion Cymraeg a Saesneg cymaradwy ar wahân, nid cyfieithiadau.
- Bydd pob prawf yn ddilys i'w ddefnyddio gyda dysgwyr ar draws grwpiau o ddwy flwyddyn.

Mae nodweddion penodol y profion rhifedd yn cynnwys y canlynol.

- Profi prosesau mathemategol a rhesymu rhifiadol, gan greu sgoriau ar wahân ar gyfer y ddau.
- Bydd pob prawf yn ddilys i'w ddefnyddio gydag un grŵp blwyddyn.
- Bydd deunyddiau'r prawf yn newid o'r naill flwyddyn i'r llall a threfnir bod eitemau sydd wedi'u defnyddio o'r blaen ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn yr ysgolion.

- Profion ynglŷn â phrosesau mathemategol a gyflwynir gyntaf, gan ddechrau ym mis Mai 2013.
- Ceir cynllun peilot â deunyddiau prawf at asesu rhesymu rhifiadol ym mis Mai 2013 i'w cyflwyno ym mis Mai 2014.

Mae'r gwaith i ddatblygu'r profion darllen yn dod ymlaen yn dda a cheir treialon ym mis Mehefin 2012 a gwaith safoni yn nhymor yr hydref 2012.

Mae'r gwaith i ddatblygu'r profion rhifedd ar fin dechrau. Ceir treialon ynglŷn ag eitemau'r prawf yn nhymor yr hydref 2012 a gwaith safoni fel rhan o'r cylch cyntaf o brofion yn haf 2013.

## Sut bydd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn defnyddio'r profion?

Bydd y profion ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Profion cymaradwy ar wahân fydd y profion darllen; nid cyfieithiadau fyddant.

Bydd dysgwyr sy'n dilyn rhaglen astudio Gymraeg yn sefyll prawf darllen Cymraeg yn unig ym Mlynyddoedd 2 a 3 ond profion Cymraeg a Saesneg o Flwyddyn 4 ymlaen. Bydd gan yr ysgolion yr opsiwn o ddefnyddio'r ddau brawf ym Mlwyddyn 3. Bydd y dysgwyr yn sefyll y prawf rhifedd yn Gymraeg neu yn Saesneg.

## Ydy'r profion yn cynnwys dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)?

Rydym yn bwriadu i'r profion gynnwys pob dysgwr cyn belled ag y bo modd. Gan hynny, rydym wedi pennu y dylai'r profion gynnwys amrediad o gwestiynau i gynnwys ystod eang o alluoedd. Bydd y profion ar gael mewn fformatau amgen i hwyluso pethau i rai dysgwyr a bydd trefniadau'n cael eu gwneud lle bo modd i ddiwallu anghenion ychwanegol y dysgwyr.

Rydym yn derbyn ei bod yn bosibl na fydd yn briodol i rai dysgwyr sefyll prawf, yn enwedig dysgwyr ag anghenion ychwanegol cymhleth neu ddwys. Bydd trefniadau'n cael eu gwneud i nodi'r dysgwyr hynny na fyddai'n briodol iddynt sefyll prawf.

## Sut caiff y profion eu rhoi a'u marcio?

Bydd y profion yn cael eu rhoi a'u marcio yn yr ysgolion a chaiff yr ysgolion cynllunio'r profion yn y modd mwyaf addas i'w hamserlen ac i'w dysgwyr, o fewn canllawiau penodedig.

Bydd canllawiau clir a chryno'n cael eu darparu i sicrhau bod y profion yn cael eu rhoi mewn modd cyson, cytbwys, gan ddangos yn glir lle caniateir hyblygrwydd er mwyn sicrhau bod y profion yn gallu cael eu rhoi mewn modd syml heb roi gormod o faich ar y dysgwyr na'r athrawon.

Yn fras, mae asesiadau crynodol yn defnyddio mwy ar gwestiynau caeedig. Ar gyfer asesiadau diagnostig neu ffurfiannol mae angen defnyddio mwy o gwestiynau agored. Mae cwestiynau caeedig yn haws eu marcio; y duedd yw y bydd un ateb cywir ac maent felly yn llai tebyg o fod yn oddrychol, yn llai tebyg o fod ag angen eu cymedroli ac yn llai tebyg o fod yn agored i amrywiadau rhwng athrawon ac ysgolion.

Drwy ddefnyddio cwestiynau caeedig yn adran statudol y prawf darllen, bydd y gwaith marcio'n gynt ac yn haws. Bydd hyn hefyd yn helpu i osgoi'r angen am waith cymedroli gan na fydd fawr o le i amwysedd ynghylch beth sy'n ateb cywir neu anghywir. Bydd y dull hwn yn gymwys hefyd yn adran broses y prawf rhifedd.

Fe fydd y cwestiynau sy'n gofyn am ymateb agored yn y deunyddiau dewisol ar gyfer asesu darllen yn agored i amwysedd gan y bydd angen disgresiwn yr athrawon yn y gwaith marcio. Ond, gan mai data i'w ddefnyddio'n fewnol yn unig yw hwn ni fydd iddo effaith negyddol. Yn yr un modd, bydd adran resymu'r prawf rhifedd yn agored i rywfaint o amwysedd yn nehongliad yr athrawon o'r cynllun marcio.

Bydd union fanylion sut y caiff hyn ei reoli yn y profion rhifedd yn cael eu trafod yn fanwl wrth iddyn nhw gael eu datblygu.

Yn ystod tymor yr hydref yn 2012, bydd ymagweddau ac opsiynau ar gyfer rhoi a marcio'r profion yn cael eu 'treialu' ymysg trawstoriad o athrawon ac ysgolion er mwyn bwydo'r trefniadau terfynol. Mae ystyriaethau tebyg yn cael eu cynnwys wrth i'r profion rhifedd gael eu datblygu.

## A fydd data o'r profion yn cael ei gasglu?

Fe fydd data o'r profion cenedlaethol yn cael ei gasglu er mwyn iddo gael ei ddefnyddio yn lleol ac yn genedlaethol at ddibenion atebolrwydd, hunanwerthuso a mesur cynnydd.

Gallai'r data gael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru mewn tair ffordd yn bennaf.

- I gydategu'r data sydd eisoes ar gael i'r ysgolion i ategu hunanwerthuso, e.e. drwy gynnwys dadansoddiad ar y data ar lefel yr ysgol yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan.
- I fesur cynnydd ar sail genedlaethol neu ranbarthol ac i fwydo dadansoddiadau ystadegol.
- I fwydo atebolrwydd, e.e. drwy ddefnyddio'r data fel rhan o'r fethodoleg ynglŷn â bandio ysgolion.

I sicrhau bod y broses mor ddidrafferth ag y bo modd ac i roi cymaint â phosibl o ddadansoddiad yn ôl i'r ysgolion a hynny cyn gynted ag y bo modd, rydym yn cynnig y bydd yr ysgolion yn llwytho sgoriau amrwd y profion i fyny drwy gyfrwng eu Systemau Gwybodaeth Rheoli (MIS) safonol i gyfnewidfa casglu data ar-lein DEWi.

Bydd DEWi yn defnyddio'r sgôr amrwd a gwybodaeth am y dysgwyr o'r MIS i gyfrifo sgoriau safonedig a sgoriau cynnydd. Caiff y rhain eu cynhyrchu i'w mewnforio yn ôl i MIS yr ysgol.

Dros gyfnod o amser bydd DEWi hefyd yn creu detholiad o ddadansoddiadau ac adroddiadau, a allai gynnwys adroddiadau unigol i'w gwneud yn haws i ganlyniadau'r profion gael eu rhoi i'r rhieni/gofalwyr, a dadansoddiadau ar lefel yr ysgol a'r dosbarth i helpu gwaith cynllunio a hunanwerthuso.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gallu cyrchu'r data y mae arni ei angen o DEWi i helpu i greu adroddiadau yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan ac at ddibenion atebolrwydd a dadansoddiadau ystadegol, felly ni fydd angen gwaith casglu data ychwanegol.

# Atodiad 1: Rhestr o gwestiynau yr ymgynghoriad

**Cwestiwn 1 –** A ydych yn meddwl bod y disgwyliadau o ran asesu o flwyddyn i flwyddyn yn taro'n gywir? Os nad ydych, eglurwch pam ac awgrymwch ddisgwyliadau eraill.

**Cwestiwn 2 –** A bwysleisir y sgiliau cywir? A ydych yn meddwl bod unrhyw sgiliau wedi'u hepgor y dylid eu cynnwys?

**Cwestiwn 3 –** A yw'r ieithwedd a ddefnyddir yn y fframwaith yn ddigon manwl? Os nad ydyw, a allwch roi enghreifftiau penodol o'r hyn sydd angen ei newid.

**Cwestiwn 4 –** A yw'n briodol ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion cyfrwng Cymraeg hefyd asesu yn erbyn y fframwaith Saesneg o Flwyddyn 4 ymlaen?

**Cwestiwn 5 –** Bydd yn ofynnol i athrawon gwblhau asesiad ar gyfer pob dysgwr yn erbyn y datganiadau sy'n gysylltiedig â'r oedran priodol yn y fframwaith. A fyddai templed dewisol er mwyn cofnodi ac adrodd yr asesiadau hyn yn ddefnyddiol i athrawon?

**Cwestiwn 6 –** A ddylai *Ar Drywydd Dysgu* ddatblygu'n sylfaen statudol ar gyfer asesu dysgwyr a chanddynt anghenion cymhleth/anawsterau dysgu dwys a lluosog?

**Cwestiwn 7 –** Ochr yn ochr â'r profion darllen statudol, caiff cronfa o ddeunydd ffurfiannol o ansawdd uchel ei datblygu i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth. Bydd y 'profion' hyn yn ddewisol, ond pa mor debygol yw hi y bydd athrawon ystafell ddosbarth yn defnyddio'r adnodd hwn, a pha fath o adnodd fyddai'n fwyaf defnyddiol?

**Cwestiwn 8 –** Bydd y profion darllen a rhifedd yn cynhyrchu sgorau safonedig a sgorau cynnydd. A ddylid darparu cyfatebiaeth oedran hefyd?

**Cwestiwn 9 –** Beth yn eich barn chi yw'r goblygiadau ymarferol yn gysylltiedig â gweinyddu a marcio profion darllen a rhifedd yn eich ysgol?

**Cwestiwn 10 –** Pa ddadansoddiadau o'r data profion (er enghraifft, y data yn eich Set Ddata Graidd neu a ddarperir drwy DEWi pan gaiff data eu huwchlwytho) fyddai'n ddefnyddiol i gefnogi'r cynllunio ar raddfa'r dysgwr unigol, y dosbarth, yr ysgol neu'r awdurdod lleol (ALl), ac er mwyn cefnogi hunanwerthuso?

# Atodiad 2: Rhestr termau llythrennedd

**Sylwer:** Mae'r adran dermau hon yn canolbwyntio ar y termau a'r cysyniadau sy'n berthnasol i lythrennedd ac i'r fframwaith safonau seiliedig ar berfformiad. Mae'n cynnwys rhai o'r termau arbenigol sy'n ymddangos yn y safonau, ond nid pob un ohonynt.

Am ragor o wybodaeth, gweler:

- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Canllawiau ar addysgu sgiliau ysgrifennu
- Canllawiau ar addysgu uwch sgiliau darllen.

## Ysgrifennu

## Mathau o destun

### Adrodd/naratif
Yn adrodd digwyddiadau mewn trefn cronolegol. Gall fod yn ffuglen neu'n cynnwys gwybodaeth.

### Adrodd
Yn disgrifio digwyddiad neu broses, nid o angenrheidrwydd yn gronolegol.

### Darbwyllol
Bod yn ddarbwyllol yw ceisio argyhoeddi neu ddylanwadu ar y darllenydd. Bydd testun darbwyllol parhaus fel arfer yn cynnwys datganiad o'r safbwynt, dadleuon a thystiolaeth o blaid y thesis hwn, o bosib rhai dadleuon a thystiolaeth sy'n cefnogi safbwynt gwahanol, a chrynodeb neu argymhelliad i gloi. Bydd mathau eraill o destunau darbwyllol (*e.e. hysbysebion*) yn defnyddio cyfuniad o nodweddion testunol gan gynnwys geiriau, seiniau a delweddau er mwyn ceisio darbwyllo.

### Esboniad
Gan gynnwys rhesymau a manylion i ddangos pam a sut, yn aml gan fynegi achos a chanlyniad, a chysylltiadau rhwng digwyddiadau neu syniadau.

### Testun cyfarwyddyd/cyfarwyddiadol
Yn disgrifio testun sy'n helpu darllenwyr i wneud rhywbeth yn y dull cywir, *e.e. ryseitiau, llawlyfrau trwsio cerbydau, cyfarwyddiadau i roi pethau at ei gilydd*. Tueddir i ddefnyddio berfau gorchmynnol mewn testun cyfarwyddiadol a rhoi cyfarwyddiadau gam wrth gam.

**Trafodaeth/dadl**
Ymchwilio'r dadlau o blaid ac yn erbyn, cyflwyno dadlau a gwybodaeth o wahanol safbwynt, ac yn cyrraedd casgliad ambell waith.

## Gramadeg

**Adferf**
Gair sy'n disgrifio neu'n addasu berf, *e.e. 'rhedodd yn gyflym', 'cyrhaeddodd yn hwyr'*.

**Amodol**
Amser o'r ferf sy'n mynegi'r syniad bod yr hyn sy'n digwydd yn dibynnu ar rywbeth arall. Mae ffurfiau amodol yn aml yn cynnwys cysyllteiriau. *e.e. 'os' neu 'wedyn'*, a ffurfiau'r ferf, *e.e. 'byddai' neu 'gallai'*.

**Amser berfol**
Ffurf y ferf sy'n dweud wrthym pryd y mae rhywbeth yn digwydd, *e.e. gorffennol, presennol neu ddyfodol*.

**Ansoddair**
Gair sy'n disgrifio neu'n addasu enw. Gall ddod cyn neu ar ôl yr enw, *e.e. 'y gadair las' neu 'mae'r gadair yn las'*. Mae gwahanol fathau o ansoddair: nifer neu faint (*e.e. 'ychydig'*), ansawdd (*e.e. 'da'*), meddiannol (*e.e. 'fy'*), gofynnol (*e.e. 'pa'*) a dangosol (*e.e. 'hwn'*).

**Berf**
Gair sy'n mynegi gweithred neu gyflwr o fod. Gall berfau fod mewn gwahanol amseroedd. Gall berfau fod yn weithredol neu'n oddefol, *e.e. 'Gyrrodd Jenny y car' (gweithredol), 'Gyrrwyd y car gan Jenny' (goddefol).*

**Cymal**
Rhan eglur o frawddeg sy'n cynnwys berf. Mae dau brif fath: **prif gymal** (*e.e. 'Byddaf yn gwneud fy ngwaith cartref'*) ac **is-gymal** (*e.e. 'pan gyrhaeddaf adref'*). Mae'r prif gymal yn gwneud synnwyr ar ei ben ei hun, ond nid felly'r is-gymal.

**Brawddeg gymhleth**
Brawddeg a chanddi gymal annibynnol ac o leiaf un cymal dibynnol (is-gymal). Cyflwynir y cymal dibynnol naill ai gan gysylltair, *e.e. 'ond' neu 'oherwydd'*, neu gan ragenw perthynol, *e.e. 'a', 'yr', 'na(d)'*.

**Brawddeg gyfansawdd**
Brawddeg sy'n cael ei chreu drwy uno dwy frawddeg syml â chysyllteiriau, *e.e. 'ac', 'neu' ac 'ond'*.

**Cytundeb**
Geiriau cysylltiedig sy'n cytuno â'i gilydd o ran nifer, achos, rhyw a pherson, *e.e. 'Dywedaf fi', 'dywedi di' (unigolyn); 'cariodd y merched eu llyfrau' (nifer)*.

**Enw**
Gair sy'n enwi peth neu deimlad. Y pedwar math o enw yw: cyffredin (cyffredinol, *e.e. 'anifail', 'cadair'*), priod (enw penodol, *e.e. 'Bangor'*), haniaethol (syniad neu gysyniad, *e.e. 'hapusrwydd'*) a thorfol (grŵp, *e.e. 'buches', 'torf'*).

**Paragraff**
Rhan o waith ysgrifenedig. Mae paragraff newydd yn dynodi newid amser, lle, pwnc neu siaradwr mewn deialog ac yn cychwyn ar linell newydd. Mae'r awdur weithiau'n defnyddio bwlch un llinell neu fewnoliad ar y llinell gyntaf hefyd.

**Treiglad**
Yn y Gymraeg, dan amodau penodol, newidir un gytsain am gytsain arall ar ddechrau gair, *e.e. 'dwy ferch'*.

## Sillafu

**Cytsain**
Sain a gynhyrchir pan fo'r siaradwr yn defnyddio ei dafod a'i ddannedd. Holl lythrennau'r wyddor ac eithrio 'a', 'e', 'i', 'o', 'u', 'w', 'y' yn y Gymraeg ac 'a', 'e', 'i', 'o', 'u' yn Saesneg.

**Gwreiddair**
Gair y gellir ychwanegu blaenddodiaid ac ôl-ddodiaid ato i greu geiriau eraill, *e.e. y gwreiddair yw 'trefn' yn 'trefnus', 'anhrefn', 'trefnu'*.

**Ôl-ddodiad**
Grŵp o lythrennau a ychwanegir at ddiwedd gair i newid ei ystyr, *e.e. 'darlun' i 'darlunio' neu 'cerdded' i 'cerddediad'*.

## Atalnodi

**Atalnod/coma (,)**
Fe'i defnyddir i rannu rhannau o frawddeg neu restr.

**Atalnod llawn (.)**
Fe'i defnyddir i ddangos diwedd brawddeg.

**Colon (:)**
Fe'i defnyddir i gyflwyno rhestr, ail gymal neu ddyfyniad sy'n ymhelaethu ar neu'n esbonio'r cymal cyntaf.

**Collnod (')**
Yn y Gymraeg defnyddir pan yr hepgorir llythyren, *e.e. 'mae'r'*. Fe'i defnyddir i ddangos cyfangiad, *e.e. 'mae'n'*, neu feddiant yn y Saesneg, *e.e. 'the dog's basket'*.

**Dyfynodau (" ")**
Fe'u gelwir yn 'inverted commas' yn y Saesneg weithiau ac fe'u defnyddir i ddangos llefaru uniongyrchol mewn testun.

**Ebychnod (!)**
Fe'i defnyddir ar ddiwedd brawddeg i ddangos emosiwn megis sioc, hiwmor, llawenydd, dicter.

**Gofynnod/marc cwestiwn (?)**
Fe'i defnyddir ar ddiwedd brawddeg i ddangos mai cwestiwn ydyw.

**Hanner-colon (;)**
Fe'i defnyddir i wahanu cymal neu ymadrodd mewn brawddeg. Mae'n gryfach nag atalnod, ond nid yw mor gryf ag atalnod llawn.

**Nodweddion trefniadol (dogfen)**
Yn cyfeirio at yr agweddau hynny ar y dull o arddangos testun yn weledol sy'n awgrymu statws y testun hwnnw a'i berthynas â darnau eraill o destun. Mae nodweddion o'r fath yn cynnwys tudalennau cynnwys, penawdau penodau ac is-benawdau eraill, rhestrau bwled, capsiynau i ffotograffau a darluniau, testun a gyflwynir mewn bocsys arddangos, tablau, troednodiadau, indecsau, ac ati.

## Darllen

**Cip ddarllen (sgimio)**
Mae cip ddarllen yn golygu edrych ar destun yn gyflym iawn, gan chwilio am eiriau allweddol er mwyn ceisio canfod gwybodaeth.

**Cyfosod**
I fynd y tu hwnt i roi crynodeb yn unig o'r canfyddiadau ar ôl darllen. Mae'n golygu asesu a didoli ffeithiau, safbwyntiau a syniadau o ystod o ffynonellau a'u casglu ynghyd i gyflwyno dehongliad cyson a rhesymegol.

**Ffonig**
Yn ymwneud â seiniau lleisiol neu lafar; torri geiriau lawr i lythrennau.

**Geirfa weledol**
Mae geirfa weledol yn ffocysu ar eiriau y bydd dysgwr yn eu hadnabod o'u gweld heb orfod eu dadgodio na'u datrys.

**Gwybodaeth raffig**
Y gallu i ddeall nodweddion allweddol mewn system ysgrifennu iaith, gan gynnwys siâp sylfaenol y llythrennau, ffurf luosog enwau, patrymau sillafu ar ddiwedd berfau, y gwahaniaeth rhwng llythrennau bach a phriflythrennau, ac ati. Gellir hefyd ddefnyddio'r term i gyfeirio at ddealltwriaeth o nodweddion eraill mewn testun (*e.e. nodweddion argraffyddol neu weledol*) sy'n cynnig cliwiau i'w ystyr.

**Llithr ddarllen (sganio)**
Mae llithr ddarllen yn golygu darllen er mwyn cael argraff gyffredinol o'r cynnwys a'r prif syniadau mewn darn o destun.

## Siarad

**Ieithwedd anffurfiol**
Mae ieithwedd anffurfiol yn fwy llafar nag ieithwedd ffurfiol, ac mae'n defnyddio strwythurau gramadegol syml a geirfa lai technegol neu gymhleth.

**Ieithwedd ffurfiol**
Nodweddir ieithwedd ffurfiol gan strwythurau gramadegol coethach a geirfa fwy ceidwadol, *e.e. 'cyfaill' yn hytrach na 'ffrind' a 'prynhawn' yn hytrach na 'pnawn'*.

**Sefyllfa ffurfiol**
Trafodaeth neu sefyllfa ffurfiol yw trafodaeth neu sefyllfa lle ceir rheolau ymddygiad, *e.e. cyfarfod*.

# Atodiad 3: Rhestr termau rhifedd

**Sylwer:** Mae'r adran dermau hon yn canolbwyntio ar y termau a'r cysyniadau sy'n berthnasol i rifedd ac i'r fframwaith safonau seiliedig ar berfformiad. Mae'n cynnwys rhai o'r termau mathemategol arbenigol sy'n ymddangos yn y safonau, ond nid pob un ohonynt.

**Amrediad (mewn cysylltiad â thrin data)**
Mesuriad o'r gwasgariad mewn ystadegau, h.y. y gwerth rhifol a gyfrifir drwy ganfod y gwahaniaeth rhwng y mwyaf a'r lleiaf mewn set o ddata rhifyddol.

**Brasamcan**
Yn cyfeirio at amcangyfrif, canlyniad neu wiriad nad yw'n fanwl gywir ond sy'n ddigon agos i fod yn ddefnyddiol mewn cyd-destun ymarferol.

**Canolrif**
Math o gyfartaledd. Y canolrif yw'r rhif neu'r gwerth sydd yn y canol o roi'r holl werthoedd mewn trefn, *e.e. canolrif 5, 6, 14, 15 a 44 yw 14*. Pan fydd nifer y gwerthoedd yn eilrif, caiff cymedr y ddau werth yn y canol ei gyfrifo, *e.e. canolrif 5, 6, 7, 8, 14 a 44 yw (7 + 8) ÷ 2 = 7.5*

**Cilydd**
Yr hyn y lluosir gwerth ag ef er mwyn cael 1, *e.e. cliydd 4 yw ¼*.

**Cymedr**
Math o gyfartaledd wedi'i selio ar rannu'n gyfartal. Y cymedr yw cyfanswm y gwerthoedd wedi'u rhannu a'r nifer ohonynt,
*e.e. cymedr 5, 6, 14, 15 a 45 yw (5 + 6 + 14 + 15 + 45) ÷ 5 = 17*

**Cynhwysedd**
Dull o fesur maint hylifau.

**Cyfaint**
Mesuriad mewn gofod tri dimensiwn.

**Cyfartaledd**
Fe'i defnyddir weithiau'n gyfystyr â 'chymedr rhifyddol'. Bydd cyfartaledd yn cynnwys cymedr, canolrif a modd.

**Cyfrannedd**
Rhan o swm a ddisgrifir yn aml drwy ddefnyddio termau fel canran, ffracsiwn, degolyn a chymhareb.

**Cymhareb**
Cymhareb o niferoedd a ysgrifennir fel *a:b*, *e.e. cymysgedd sy'n cynnwys dau gynhwysyn mewn cymhareb 3:1 yw tair rhan o'r cynhwysyn cyntaf ac un rhan o'r ail gynhwysyn*.

**Data**

- **Data arwahanol**
  Data sy'n deillio o gyfrif eitemau neu ddigwyddiadau ar wahân, *e.e. nifer o bobl mewn gêm pêl droed*.

- **Data di-dor**
  Data lle gellir pennu unrhyw werth, *e.e. hyd, cynhwysedd, amser, tymheredd*.

**Ffracsiynau**

- **Ffracsiynau bondrwm**
  Mae'r rhifiadur (y rhif uchaf) yn llai na'r enwadur (y rhif isaf), *e.e. ¼*

- **Ffracsiynau pendrwm**
  Mae'r rhifiadur yn fwy na'r enwadur, *e.e.* $^{7}/_{4}$.

- **Rhifau cymysg**
  Rhif cyfan a ffracsiwn bondrwm gyda'i gilydd, *e.e. 1¾*.

**Ffurf safonol**
Defnyddio pwerau 10 i gofnodi rhifau mawr iawn neu fach iawn, *e.e. gellir ysgrifennu 6 500 000 fel 6.5 x 10 6 a 0.000000321 fel* $3.21 \times 10^{-7}$.

**Graddfa**
Y gymhareb rhwng maint rhywbeth gwirioneddol a maint yr hyn sy'n ei gynrychioli.

**Grwpio data**
Trefnu llawer iawn o ddata yn grwpiau olynol nad ydynt yn gorgyffwrdd â'i gilydd, a'u trefnu i gyfyngau cyfartal, lle bo'n briodol.

**Gweithrediadau gwrthdro**
Gweithrediadau sy'n gwrthgyferbynnu y naill â'r llall, *e.e. adio a thynnu, lluosi a rhannu, sgwâr ac ail isradd*.

**Màs**
Mewn defnydd bob dydd, cyfeirir yn aml at màs fel pwysau, ac fe gymerir yn ganiataol mai'r unedau ar gyfer hynny yw kilogramau (*e.e. gall rhywun ddweud eu bod yn pwyso 75 kg*). Mewn defnydd gwyddonol, fodd bynnag, mae'r term pwysau yn cymryd grym disgyrchiant i ystyriaeth.

**Mesuriadau cyfansawdd**
Mae mesuriadau cyfansawdd yn cyfuno dau fesuriad o fath gwahanol, *e.e. cyflymder ar ffurf metrau yr eiliad, dwysedd poblogaeth ar ffurf nifer y bobl fesul cilometr sgwâr neu'r gyfradd o rediadau ar ffurf rhediadau fesul pelawd*.

**Modd**
Math o gyfartaledd. Y gwerth a geir yn fwyaf aml mewn set ddata, *e.e. modd 1, 8, 2, 2, 9, 3, 3, 3, 3, 7 yw 3*

**Pictogram**
Ffordd o gynrychioli data. Defnyddir lluniau/symbolau/eiconau i gynrychioli gwrthrychau. Ar gyfer rhifau mawr, gall un symbol gynrychioli nifer o wrthrychau. Mae rhan o symbol yn cynrychioli cyfran o'r nifer.

**Priodol**
Yn addas ar gyfer y dasg, y cyd-destun a'r cymhlethdod. Drwy ddefnyddio 'priodol' yn y fframwaith, cydnabyddir bod angen ymdriniaeth wahanol ar gyfer gwahanol gyd-destunau.

**Pwysau**
Gweler **Màs**.

**Rhifau cymysg**
Gweler **Ffracsiynau**.

**Rhifo**
(Gwneud) marciau rhifo i gynrychioli gwrthrychau sydd wedi cael eu cyfrif.

**Siâp cyfansawdd**
Gellir torri siapiau cyfansawdd yn siapiau syml ar wahân.

**Siart bar/graff bar**
Ffordd o gynrychioli data rhifiadol. Caiff amleddau eu cynrychioli gan farrau o led cyfartal a bydd hyd y barau'n cynrychioli'r amlderau. Gellir cyflwyno'r barrau'n fertigol neu'n llorweddol.

**Siart cylch**
Ffordd o gyflwyno data. Caiff cylch ei rannu'n sectorau a bydd maint y sectorau hynny'n cynrychioli cyfrannau priodol o'r data.

**Tabl**
Gwybodaeth, rhifau neu lythrennau wedi'u rhoi mewn trefn, fel arfer mewn rhesi a cholofnau.

**Tabl amledd**
Tabl ar gyfer cyfres o arsylwadau sy'n dangos pa mor fynych y ceir pob digwyddiad neu nifer.

**Talgrynnu**
Cyfleu nifer neu fesuriad hyd at y lefel ofynnol o gywirdeb, *e.e. 537 wedi'i dalgrynnu i'r 10fed agosaf yw 540*.

**Trefn gweithrediadau**
Confensiwn o ddefnyddio gweithrediadau mewn trefn neilltuol. Dyma'r drefn honno:

Cromfachau
Pwerau/Indecsau
Lluosi a rhannu
Adio a thynnu

**Unedau safonol**
Unedau a gytunir drwy gymuned, *e.e. mae metr yn uned hyd safonol*. Mae unedau ansafonol, felly, yn rhai na cheir cytundeb eang ar eu cyfer, *e.e. cam, cwpanaid*.